# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – DATBLYGU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 6 GORFFENNAF 2016 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL:** Bu'r Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| D W Cole | C R Doyle | P Lloyd |
| P M Matthews | T M White | |

**HEFYD YN BRESENNOL:**
**Y Cynghorydd**
H Morris (arsylwr)

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| I Beynon | Rheolwr Datblygu ac Allgymorth |
| S Cable | Swyddog Chwarae i Blant |
| A Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| M Russ | Rheolwr Gwasanaethau Parciau |

13 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr C Anderson, C Thomas, A McTaggart, Swyddog Data Mapiau a Gofodol a J Rees-Thomas, Gweithiwr Datblygu Chwarae.

14 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

15 **STRATEGAETH MANNAU AGORED.**

Cyflwynodd Ian Beynon, y Rheolwr Datblygu ac Allgymorth, ddogfen Strategaeth Mannau Agored ddrafft.

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i hychwanegu:

- Gwybodaeth am hyrwyddo bioamrywiaeth a chadwraeth natur; serch hynny nodwyd bod angen gwirio nifer y safleoedd bywyd gwyllt o hyd;
- Sut byddai'r strategaeth yn cysylltu â strategaethau a chynlluniau eraill y cyngor sy'n ategu blaenoriaethau a gwerthoedd corfforaethol y cyngor.
- Cyfeiriad at y cynllun gweithredu (a fyddai'n ddogfen waith).

Yna trafododd y pwyllgor y broses ymgynghori, y byddai angen ymgymryd â hi cyn cyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor Briffio Corfforaethol a'r Cabinet.

Awgrymodd y Rheolwr Datblygu ac Allgymorth y dylid dechrau ymgynghori ag aelodau o Fforwm Cyfeillion y Parciau. Byddai rhaid ymgynghori â chynghorwyr ar feysydd lle nad oedd aelodau o Gyfeillion y Parciau ar gael.

Esboniodd Stephen Cable, y Swyddog Chwarae Plant, fod angen Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer pob strategaeth newydd. Roedd wedi dechrau ar yr ymarfer hwn ac wedi cysylltu â'r Tîm Mynediad i Wasanaethau, a deimlai y byddai'r strategaeth yn effeithio ar sawl grŵp gwahanol. Y gobaith oedd defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o ymarferion ymgynghori a gynhaliwyd yn ddiweddar megis sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Chwarae Plant.

Yn dilyn ymgynghoriad, byddai'n rhaid i'r pwyllgor weithio gyda'r swyddogion i werthuso unrhyw sylwadau ac addasu'r Strategaeth Mannau Agored fel y bo angen.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr holl waith a wnaed i lunio'r strategaeth.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol:

1) Y dylid nodi'r adroddiad:
2) Y dylai'r adroddiad, yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r meysydd arfaethedig i ymgynghori arnynt gael eu cyflwyno i Bwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygiad ar 17 Awst 2016.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.23 am

**CADEIRYDD**